

Labordai Datblygiad Proffesiynol: Gwybodaeth i Ymgeiswyr --

Labordai

Datblygiad Proffesiynol:

Gwybodaeth i Ymgeiswyr _ _

Beth yw Labordai Datblygiad Proffesiynol? _

Mae Labordai Datblygiad Proffesiynol yn gyfle newydd i artistiaid ddod at ei gilydd mewn ffyrdd creadigol heb bwysau gorfod gweithio ar syniadau ar gyfer cynnyrch neu gynhyrchiad penodol. Gwyddom fod artistiaid yn ei chael yn anodd dod o hyd i'r amser i ddod at ei gilydd a rhannu syniadau, ymarfer a phroses, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac sydd wedi dibynnu ar rwydweithiau mwy anffurfiol i aros yn gysylltiedig â'r sector. Mae Labordai Datblygiad Proffesiynol yn cynnig i chi ac artistiaid yr ydych am weithio gyda hwy y cyfle i ddylunio eich 'ystafell brofi' eich hun, mewn fformat sy'n galluogi cyfnewid ac yn darparu lle i rywbeth ymddangos o ddim byd.

Rydym am glywed gan bobl greadigol gyda chefnidiroedd artistig amrywiol sydd am ddyfeisio, gwneud cais am a chyflwyno cyfnod datblygu dwys yn seiliedig ar eu hanghenion. Hoffem gefnogi cynigion am ffyrdd arloesol (newydd neu well!) o rannu sgiliau, syniadau a/neu brosesu yn fwy eang, mewn fformatau sy'n caniatáu i artistiaid fynd oddi wrth eu gwaith bob dydd.

Rydym yn croesawu'n benodol cyflwyniadau gan artistiaid sy'n dod o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (yn benodol artistiaid o gefnidoedd diwylliannol amrywiol, neu artistiaid ag anghenion ychwanegol). Yn eich cyflwyniad, byddwn yn chwilio am enghreifftiau o sut y credwch y bydd eich Labordy chi yn eich galluogi chi, a'r rheini y byddwch chi'n dewis gweithio gyda nhw, i ddod o hyd i rywbeth newydd.

Dychmygw'n y bydd y rhan fwyaf o'r Labordai yn para rhwng ychydig ddyddiau ac wythnos gyda hyd at bedwar artist (ond mae hyn yn hyblyg!).

Pa fath o artistiaid a all wneud cais? _

Mae Labordai Datblygiad Proffesiynol yn agored i bob artist sydd â diddordeb mewn gwneud perfformio - awduron, cyfarwyddwyr, coreograffwyr, dylunwyr, symudwyr, gwneuthurwyr digidol, neu arbrofwyr creadigol cyffredinol.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan artistiaid sydd ar unrhyw gam yn eu gyrfaedd - o'r rhai sy'n newydd i'r rhai mwy sefydledig.

Rydym am i artistiaid sy'n gysylltiedig ag unrhyw Labordy Datblygiad Proffesiynol adnabod ei gilydd eisoes neu fod yn gysylltiedig mewn rhyw ffordd.

Rhaid i'r holl artistiaid/cynhyrchwyr sy'n cymryd rhan:

- _ fod yn 18 oed a throsodd;
- _ peidio â bod mewn addysg amser llawn ar hyn o bryd;
- _ peidio â chynnal prosiectau mewn cysylltiad ag ymchwil PhD; a
- _ yn byw yng Nghymru neu'n gallu dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu gwaith yng Nghymru.

Ble all y Labordai gael eu cynnal? _

Yn unrhyw le yng Nghymru. Gall Labordai gael eu cynnal mewn canolfan gelfyddydau neu leoliad theatr ond rydym yn chwilio am ffyrdd arloesol o rannu ymarfer felly byddem yn eich annog i feddwl am leoliad a fyddai'n ysbrydoli, helpu ac annog hyn: dan do, yn yr awyr agored, mewn lleoliad celfyddydol, ar fynydd, mewn cwch neu gaban. Chi pia'r dewis.

Pryd fyddant yn digwydd? _

Rydym yn rhagweld y bydd y rhan fwyaf o'r Labordai yn digwydd rhwng 01 Mawrth a 01 Hyd 2018 ond rydym yn hapus i ystyried cyfnodau eraill. Cysylltwch â ni os oes gennych gwestiynau am hyn.

Beth sydd ar gael? _

Cyllideb

Bydd yr holl brif artistiaid a'u cydweithwyr yn derbyn ffi isafswm o £500 yr wythnos am eu hamser ar y prosiect, yn ogystal â chymorth cyllidebol tuag at gost teithio, llety, deunyddiau ac ati, gan ddibynnu ar anghenion pob Labordy. Nid oes angen i chi gwblhau cyllideb fel rhan o'ch cyflwyniad. Byddwn yn gweithio gyda chi i ddyrannu arian i'ch prosiect, yn seiliedig ar ei anghenion.

Cefnogaeth A Chyngor

Byddwch yn derbyn cefnogaeth artistig a chynhyrchu gan y tîm Datblygiad Creadigol a'r Adran Gynhyrchu, yn ogystal â chael mynediad at arbenigedd y cwmni cyfan, gan gynnwys Cydweithio a Chyfathrebu.

Beth yw'r broses ymgeisio? _

_ Gallwch gyflwyno syniad trwy lawrlwytho'r ffurflen gyflwyniadau a'i hanfon at submissions@nationaltheatrewales.org

_ Byddwn yn ymateb i'ch e-bost i roi gwybod ichi unwaith y caiff ei derbyn yn ddiogel.

_ Ar ôl i'r dyddiad cau fynd heibio, fe'i hanfonir at banel cefnogol a chyfeillgar o weithwyr proffesiynol y diwydiant (sy'n cynnwys staff NTW ac artistiaid annibynnol gwadd, neu reolwyr celfyddydau o Gymru neu du hwnt). Efallai y byddwn yn rhoi galwad i chi os oes unrhyw gwestiynau y mae angen i ni eu gofyn cyn ei rhannu.

_ Os teimlwn fod gan eich Labordy botensial go iawn, byddwn yn trefnu ichi gyfarfod â chynrychiolwyr y panel er mwyn i chi ddweud wrthym fwy amdano, ym mha bynnag ffordd y credwch sy'n dangos orau yr hyn yr hoffech ei wneud, a sut. Os ydych chi'n bwriadu gweithio gyda chymuned, byddem yn disgwyl iddynt gael eu cynnwys ar y pwynt hwn mewn rhyw ffordd.

_ Os dewisir eich Labordy, byddwch yn gweithio gyda staff yn NTW (Datblygiad Creadigol, Cynhyrchu, Cynhyrhydd Newydd) yn ogystal ag unrhyw bartneriaid/artistiaid cydweithredol i gynllunio a chynnal eich Labordy. Gall Labordai ddatblygu ar y pwynt hwn mewn nifer o wahanol ffyrdd.

_ Ar ddiwedd y Labordy gofynnir i chi rannu peth o'r hyn a wnaethoch ar gyfer gweddil y gymuned artistig, er enghraifft trwy Gymuned NTW.

_ Byddwn ni'n eich helpu i feddwl am yr hyn a allai ddigwydd nesaf a sut. Byddwn hefyd yn gwneud cyflwyniadau i weithwyr proffesiynol neu artistiaid eraill y credwn y gallai fod â diddordeb yn eich gwaith yn y dyfodol. Ond nid ydym eisiau i hynny fod yn ddiwedd ar ein gwaith gyda'n gilydd, felly fe ddown o hyd i ffyrdd o gadw mewn cysylltiad hefyd.

Rydym yn argymhell yn gryf eich bod chi'n siarad â ni am eich syniad cyn ei gyflwyno. Rydym yn disgwyl llawer o gyflwyniadau felly peidiwch â'i adael i'r funud olaf cyn cysylltu!

Beth yw'r terfyn amser? _

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **dydd Gwener 12 Ionawr 2018**.

Mae rhaglen Labordai Datblygiad Proffesiynol NTW yn cael ei chefnogi gan:



www.esmeefairbairnfoundation.org.uk

Thank you / Diolch _

Cysylltu _

Os ydych chi am drafod syniadau neu ofyn cwestiwn i ni, cysylltwch!

Simon Coates

Pennaeth Datblygiad Creadigol

simoncoates@nationaltheatrewales.org

Gwenfair Hawkins

Cynorthwydd Datblygiad Creadigol

gwenfairhawkins@nationaltheatrewales.org

National Theatre Wales

30 Arcêd y Castell

Caerdydd

CF10 1BW

☎ +44 (0)29 2035 3070

@ info@nationaltheatrewales.org

🌐 nationaltheatrewales.org

🌐 community.nationaltheatrewales.org

🐦 @NTWTweets

📍 National Theatre Wales

© 2017. All rights reserved.

Registered in England & Wales

Company Registration No. 6693227

Charity Registration No. 1127952